**Cofnodion Bwrdd Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru Cyf.**

**19 Gorffennaf 2024**

0900 – 1230

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Mynychwyr**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde a Marie Daly.

**Yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Cyswllt Anweithredol) a Jeremy Morgan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau**
Alexia Course, Marie Daly a Peter Strachan.

**1b. Hysbysiad o Gworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan ei fod yn agored.

**1c. Datgan Buddiannau**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau cyhoeddedig yn gyfoes ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Mae Heather Clash a James Price yn aelodau dros-dro o Fwrdd Ffeibr TC. Julian Edwards yw rheolwr dros-dro Cross Country Trains Ltd.

**2. Moment Ddiogelwch**.
Trafododd y Bwrdd y gwersi parhaus i'w dysgu, y cynnwys, yr argymhellion a'r gwersi perthnasol sy'n deillio o adroddiad RAIB am ddigwyddiadau Margam, a ddigwyddodd ym mis Gorffennaf 2019, union bum mlynedd yn ôl.

**3. Moment Cwsmeriaid**
[redacted]

*Gadawodd Marie Daly y cyfarfod.*

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2024. Nodwyd y Cofnod o Gamau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithredu. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar:

- Mae ad-drefnu amserlenni wedi arwain at ambell gyfnod heriol, yn enwedig o ran cydbwysedd newidiol cerbydau rheilffyrdd, defnydd mwy dwys o rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd a heriau gyda meddalwedd pennu llwybrau yng Nghanolfan Reoli Integredig Ffynnon Taf a Chanolfan Gweithredu Rheilffyrdd Cymru yng Nghaerdydd.
- Dyma achos tebygol y cwymp diweddar mewn metrigau boddhad cwsmeriaid. Serch hynny, roedd yr holl fetrigau galw yn well na'r targed gan gynnwys refeniw teithwyr, siwrneiau teithwyr a chilometrau teithwyr.
- Trafodaeth am berfformiad AIW ar seilwaith. Alison Thompson a James Holmes i'w gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol **[Cam Gweithredu Jan Chaudhry Van der Velde]**.

*Ail-ymunodd Marie Daly â'r cyfarfod.*

- Cyflwynwyd dydd Suliau i'r wythnos waith yn llwyddiannus ymhlith gyrwyr, gyda holl ddata'r gyflogres yn cael ei ddiweddaru'n gywir.
- Dibynadwyedd MKIV yn gwella. Diolchodd y Bwrdd i'r timau am welliannau diweddar gan bwysleisio'r angen i gadw'r sefyllfa hon. Cafwyd trafodaeth am yr effaith ar ETD Crewe yn dilyn newid diweddar yn y fflydoedd sy'n cael eu cynnal a'u cadw yno.
- Mae'r ddau gerbyd Dosbarth 175 a ddifrodwyd yn wael gan dân yn ystod digwyddiadau thermol y llynedd wedi'u cyfuno'n uned dau gerbyd wedi'i hailddynodi. Mae'r uned wedi'i dileu'n ffurfiol gyda'r gwarantwyr yswiriant yn gwneud y taliad gofynnol llai'r yswiriant dros ben.
- Mae cyfraddau sganio ar y tren wedi cynyddu 67%, i fyny o 40% flwyddyn yn ôl.
- [redacted]
- Y cynlluniau diweddaraf i weithredu protocol Metro Llinellau Craidd y Cymoedd, na fydd yn ei le ar gyfer cyflwyno Dosbarth 756 i'r gwasanaeth. Serch hynny, y bwriad yw y bydd pob dosbarth 398 yn cael ei gyflwyno i deithwyr drwy ddefnyddio'r protocol.

*Ymunodd Lewis Brencher â'r cyfarfod.*

- Bu'r Bwrdd yn trafod yr angen i leihau'r nifer sy'n canslo ynghyd â strategaeth gyfathrebu ragweithiol a fydd yn dibynnu ar gyngor JC **[Cam gweithredu LB i ddarllen pecyn y Bwrdd ar sylwebaeth a JC i ddod i gasgliad ynglŷn ag ail-lunio ffigurau i'w wneud yn berthnasol i gwsmeriaid]**.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrwydd Diogelwch**

*Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.*

Diweddarwyd y Bwrdd ar sawl digwyddiad RIDDOR a oedd yn deillio o gam-drin staff. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyfforddiant ac atal ynghyd â dadansoddiad o ddioddefwyr cyson i weld a oes unrhyw batrymau'n gysylltiedig â hyn. Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Dangosfwrdd Risgiau Rheilffyrdd**

Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd. Hysbyswyd y Bwrdd y bydd risgiau rheilffyrdd yn cael eu hystyried yn bennaf gan Fwrdd y Rheilffordd a'u nodi gan brif fwrdd TC. Bydd penderfyniadau yn cael ei gwneud yn ELT o ran pa risgiau rheilffyrdd fydd yn cael eu huwchgyfeirio i Fwrdd TC a pha rai i'w hystyried gan fwrdd y Rheilffordd.

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.*

**7. Adolygiad ariannol**

Nododd y Bwrdd adolygiad ariannol rheilffyrdd Cyfnod 2.

Y sefyllfa gyffredinol yw'r sefyllfa ffafriol, a hynny oherwydd y cyfnodau. Rhybuddiwyd y Bwrdd rhag unrhyw bethau annisgwyl ar wariant cyfalaf.

8. **Diweddariad marchnata**

*Ymunodd Lewis Brencher a Chris Williams â'r cyfarfod*

Diweddarwyd y Bwrdd ar drefniadau'r Eisteddfod a'r gwaith parhaus yn ymwneud ag econometreg, y mae adroddiad wedi'i dderbyn ar ei gyfer a chanfyddiadau wedi'u hadolygu. Mae gwaith wedi dechrau ar fersiwn nesaf yr ymgyrch rhwydwaith cymdeithasol.

[redacted]

Diweddarwyd y Bwrdd am dalu-wrth-fynd. Llinell Glynebwy yn dangos twf cynyddrannol.

**9. Diweddariad masnachol**

Perfformiad da yng Nghyfnod Rheilffordd 3, yn enwedig refeniw teithwyr sydd wedi cynyddu fesul cyfnod ac o un flwyddyn i'r llall. Mae sganio ar drenau hefyd wedi gwella ac mae'r arenillion yn gwella o'r naill gyfnod i'r llall. Croesawodd y Bwrdd y ffaith fod TC yn parhau i berfformio'n sylweddol well na'r diwydiant ehangach o ran refeniw teithwyr, niferoedd ac arenillion o'i gymharu â'r sefyllfa cyn COVID.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**